# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 24.01.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W. Tudor Owen a Peter Read

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd - Llygredd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – ADEILAD ROBINSON, FFORDD DEINIOL, BANGOR

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar ran Adeilad Robinson, Ffordd Deiniol, Bangor:** Mrs Cheryl Wright (Ymgeisydd), Mr Mike Goodwin (Swyddog Ystadau) a Mr Skip Belton (Pensaer)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu) a'r Heddwas Gwenno Jones

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Y Cynghorydd John Martin (Cyngor Dinas Bangor), Mr Paul Mayer, Mrs Wendy Mayer, Mrs Eluned Taylor, Mr Alun Huws, Mr John Wilce

**Aelodau lleol:** Y Cynghorwyr June a Keith Marshall

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Adeilad Robinson, Ffordd Deiniol, Bangor am drwydded eiddo i ganiatau drama, ffilm, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dawnsio, gwerthu alcohol a darparu bwyd poeth rhwng 19.00 a 02.00 dydd Llun i ddydd Iau a rhwng 19.00 a 02.30 dydd Gwener a dydd Sadwrn, gyda'r eiddo'n cau hanner awr yn hwyrach. Ni fydd yr eiddo'n agored ar y Sul.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Derbyniwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Cynllunio. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd e-bost gan yr aelodau lleol a llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd y caniatwyd cais cynllunio gan y Pwyllgor Cynllunio yn Rhagfyr 2010 i newid defnydd yr adeilad o ddefnydd academaidd i ddefnydd amrywiol gan gynnwys clwb nos a swyddfeydd myfyrwyr. 'Roedd o'r farn eu bod wedi cyfarfod â'r prif bryderon a godwyd mewn perthynas â gweithredu'r cyfleuster. Nododd iddynt eisoes redeg sefydliad cyffelyb yn llwyddiannus llai na 200 llath o'r safle dan sylw, sef y cyn-glwb nos "Time". Pwysleisiwyd y byddai'r eiddo yn agored nid yn unig i'r myfyrwyr ond hefyd i'r ieuenctid lleol. Nododd hefyd bod gan fyfyrwyr ardrawiad economaidd ar y ddinas a'i bod yn bwysig bod cyfleuster cymdeithasol fel hyn ar gael iddynt. Cadarnhawyd y byddai'r eiddo yn cael ei redeg gan, ac y byddai'r trwyddedai'n atebol i'r, brifysgol, nid Undeb y Myfyrwyr. Cadarnhaodd y cyflogir staff a fyddai wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol ar y drysau. Gosodir teledu cylch cyfyng yn yr adeilad ac hefyd ar y drysau. Bydd y personau a fyddai'n gyfrifol am redeg y sefydliad yn rhai profiadol.

Mewn ymateb i bryderon ynglyn ag addasrwydd yr adeilad, eglurodd yr ymgeisydd bod y waliau yn rhai addas. Serch hynny, byddai'r holl adeilad yn cael ei adnewyddu gyda'r ffenestri allanol yn cael eu blocio. Y to oedd y brif broblem a byddai un newydd yn cael ei osod a byddai hwnnw, yn ogystal â'r nenfwd, yn cael ei insiwleiddio. Byddai'r addasiadau yn creu "bocs" o fewn yr adeilad i rwystro sŵn rhag dianc. Cadarnhaodd eu bod yn derbyn yr amodau a argymhellir gan yr Adran Iechyd Amgylchedd a bod cynllunwyr yr adeilad yn hyderus y gellir cyfarfod â'r amodau hynny. 'Roeddynt hefyd yn derbyn yr awgrym o gael rhif ffôn y gallai trigolion cyfagos ei alw pe byddai problemau sŵn, ond y byddai eisoes rhywun fyddai'n atebol yn bersonol am reoli'r sŵn, sef deilydd y drwydded.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Mr Ian Williams Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r cais yn ddarostyngedig i osod yr amodau a awgrymwyd ganddynt. 'Roedd hwn yn gais ar gyfer adeilad newydd a gan nad oedd wedi ei drwyddedu'n flaenorol nid oedd tystiolaeth uniongyrchol o broblemau yn ymwneud â'r eiddo. Nododd bod llythyr a dderbyniwyd gan un o'r trigolion yn gwneud cais i'r heddlu am ystadegau parthed troseddau. Ni allai roddi sylwadau arnynt gan nad oedd wedi eu gweld ond hysbysodd ei bod yn ofynnol i'r ystadegau a gyflwynir gan yr heddlu fod yn berthnasol ac yn uniongyrchol i'r eiddo dan sylw. Efallai bod tystiolaeth o drosedd ac anhrefn yn yr ardal ond nid yn benodol ar gyfer yr eiddo hwn. Nododd bod yr ardal hon yn un lle mae pobl yn dueddol o gerdded i fyny ac i lawr o Bangor Uchaf. Mae'r ymgeisydd yn fodlon cydweithio gyda'r heddlu ac yn cytuno gyda'r amodau y gofynnir amdanynt. Dylid cynnwys hefyd ar y drwydded yr amodau mae'r ymgeisydd wedi nodi yn rhan P o'r ffurflen gais.

Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd - Llygredd at yr amodau yr argymhellir eu gosod ar y drwydded parthed rheoli sŵn o'r eiddo. Nododd bod hwn yn ddatblygiad o'r newydd ac felly nid oes hanes o broblemau. Fodd bynnag, 'reodd ganddo bryderon yn ymwneud â sŵn yn deillio o'r adeilad o ganlyniad i'r adloniant y bwriedir ei gynnal yno. Fel canlyniad, 'roedd yn cynnig amodau i ddatrys y problemau hynny. Cyflwynodd amodau gwahanol i'r rhai a gynigiwyd yn wreiddiol gan egluro bod y rhai newydd yn llymach ac yn cyd-fynd â'r amodau a osodwyd ar y caniatâd cynllunio. Eglurodd hefyd bod amod pellach ar y caniatâd cynllunio a olygai bod rhaid i'r ymgeisydd brofi bod yr eiddo yn cydymffurfio â'r gofynion sŵn cyn y gellir agor o gwbl.

Eglurodd hefyd nad oedd yr adran yn gallu darparu gwasanaeth 24 awr i ymateb i broblemau ond y byddai unrhyw gwynion yn cael sylw yn unol â threfn yr adran o ymdrin â chwynion sŵn. Gallai hynny gynnwys gosod peiriannau neu ymweld â thai i fonitro lefel y sŵn tu allan i oriau arferol. 'Roedd o'r farn bod gosod amodau yn gofyn am ddynodi unigolyn i fod yn gyfrifol am reoli'r sŵn ac i ddarparu rhif ffôn i drigolion yn syniad da.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Nid oedd gwrthwynebiad i'r egwyddor o gael clwb nos, ond nad oedd lleoliad na strwythur yr adeilad yn addas i'r pwrpas. Nid oedd yr adeilad wedi ei adeiladu'n bwrpasol ac 'roedd y to yn arbennig o anaddas. Cyfeiriwyd at y tai oedd gerllaw'r eiddo ac effaith y sŵn ar drigolion y tai hynny.
- Y byddai'n creu ymddygiad gwrth-gymdeithasol gyda phobl yn gadael yr eiddo yn ystod oriau mân y bore gan achosi niwed i ansawdd bywyd y trigolion lleol.
- Y sŵn a fyddai'n debygol o ddod o'r clwb ac nad oedd modd monitro'r amodau sŵn yn ystod oriau mân y bore.
- Y sŵn, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol tebygol wrth i bobl adael ac effaith hynny ar drigolion Bangor Uchaf oherwydd y rhagwelir y bydd y mwyafrif o fynychwyr y clwb yn fyfyrwyr ac yn dychwelyd i'r hostelau ym Mangor Uchaf. Rhagwelir mwy o broblemau i'r heddlu.
- Bod storfa cemegau yng nghefn yr adeilad ac nad oedd yn ddigon diogel rhag cwsmeriaid y clwb arfaethedig.
- Y dylid ystyried lleoli'r clwb nos mewn lleoliad gwahanol neu cwtogi ar yr amseroedd y gofynnir amdanynt.
- Bod y clwb blaenorol (Time), yn groes i'r hyn a ddywedai'r ymgeisydd, wedi achosi llawer o broblemau i drigolion lleol.
- Pe caniateid y cais dylid penodi swyddog cymwys i fod yn gyfrifol am reoli'r sŵn a hefyd bod rhif ffôn ar gael i drigolion fedru cysylltu os oes niswans sŵn yn bodoli.
- Mai argymhelliad yr Adran Iechyd Amgylchedd a'r Adran Cynllunio oedd i wrthod y cais cynllunio.
- Y dengys ystadegau bod lefelau'r troseddau yn yr ardal hon yn uchel a bod y mwyafrif o'r troseddau yn cymryd lle rhwng 11.00pm a 2.00am. Nodwyd bod 19 allan o 42 digwyddiad wedi cymryd lle yng Nghlwb Nos Time tros gyfnod. Dywedwyd bod y ffigurau bedair gwaith yn uwch yn ystod y tymor academaidd a bod y ffigurau'n isel ar hyn o bryd oherwydd nad oedd clwb nos yno ar hyn o bryd.
- Y byddai lleoli'r clwb yn yr adeilad dan sylw yn achosi mwy o broblemau gan ei fod yn nes at dai preswyl na'r clwb blaenorol.
- Bod pobl yn gwneud dŵr yng ngerddi'r tai gerllaw ac ar gerbydau.

Gadawodd yr ymgeisydd, yr aelodau lleol, y Rheolwr Trwyddedu, yr Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd – Llygredd, cynrychiolwyr yr heddlu a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – nodwyd nad oedd gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais, yn ddarostyngedig i amodau, gan ei fod yn gais o'r newydd ac nad oedd ganddynt felly dystiolaeth yn berthnasol i'r eiddo. Ystyriwyd hefyd dystiolaeth a gyflwynwyd gan wrthwynebydd o'r ystadegau troseddau ar gyfer yr ardal o gwmpas yr eiddo, ond ni ellid eu priodoli i'r eiddo arbennig hwn.
- Diogelwch y Cyhoedd – ystyriwyd y gofidion parthed y storfa gemegau, ond 'roedd yr is-bwyllgor yn fodlon y byddai'r storfa yn gorfod cyfarfod â gofynion penodol deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac y byddai hynny'n cael ei reoli gan yr asiantaethau priodol. Nid oedd felly gyfiawnhad dan y pennawd hwn tros gyfyngu neu wrthod y cais.
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – tra'n cydnabod pryderon y gwrthwynebwyr, 'roedd yr is-bwyllgor wedi ystyried barn proffesiynol yr Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd ac yn fodlon y byddai gosod yr amodau a gynigiwyd ganddo yn sicrhau mesurau digonol ar gyfer rheoli sŵn o'r eiddo. Serch hynny, 'roedd yr is-bwyllgor yn pryderu am yr effaith y byddai cynifer o bobl yn gadael yr eiddo yn oriau mân y bore yn ei gael ar drigolion cyfagos, yn enwedig wrth i nifer helaeth ohonynt ddychwelyd adref drwy Bangor Uchaf. Credai'r aelodau y byddai hyn yn creu sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cymerwyd i ystyriaeth dystiolaeth y trigolion ynglyn â'r problemau a gafwyd yn y gorffennol gyda'r

clwb nos blaenorol. Er bod y cais yn ymwneud ag adeilad gwahanol, ei fwriad oedd darparu clwb a fyddai'n cymryd lle'r un blaenorol. Byddai'n denu'r un fath o gwsmeriaid, yn darparu cyfleuster tebyg a byddai wedi ei leoli yn agos at safle ei ragflaenydd. 'Roedd yr is-bwyllgor o'r farn felly bod angen cwtogi ar yr oriau y gofynnwyd amdanynt er mwyn lleddfu effaith y sŵn a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol fyddai'n cael ei greu gan bobl yn gadael yr eiddo.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r amcan trwyddedu yma.

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Adeilad Robinson, Ffordd Deiniol, Bangor fel a ganlyn:-**
**a) Caniatau Dramau (A); Ffilmiau (B); Cerddoriaeth Fyw (E); Cerddoriaeth wedi ei recordio (F); Perfformiadau Dawns (G); Cyfleusterau ar gyfer chwarae cerddoriaeth (I); Cyfleusterau ar gyfer dawnsio (J); Cyfleusterau ar gyfer adloniant yn debyg i ddisgrifiad yr hyn sy'n disgyn o fewn paragraffau I neu J (K); Cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo (M):**
- **Dydd Llun i Ddydd Iau o 19.00 hyd 00.30**
- **Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 19.00 hyd 01.00**

**b) Caniatau darparu lluniaeth hwyr (L):**
- **Dydd Llun i Ddydd Iau o 23.00 hyd 00.30**
- **Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 23.00 hyd 01.00**

**c) Caniatau oriau agor yr eiddo i'r cyhoedd dan baragraff O o 19.00 hyd 01.00 o ddydd Llun i ddydd Iau ac o 19.00 hyd 01.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.**
**ch) Gosod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan yr Heddlu –**
**i) Bydd unrhyw unigolyn sy'n arfer gweithgaredd diogelwch (fel y'i diffinir ym mharagraff 2(1)(a) Atodlen 2 Deddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001) wedi cael ei drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Bydd unigolyn o'r fath yn cael ei gyflogi yn yr eiddo ar bob achlysur pryd mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd.**
**ii) Pob diod i gael ei weini mewn gwydryn neu botel na ellir eu torri o fath a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu. Os nad oes poteli plastig ar gael, bydd cynnwys poteli gwydr yn cael eu harllwys i wydrau plastig.**
**iii) Teledu cylch cyfyng digidol i wylio pob ardal sy'n agored i'r cyhoedd gan gynnwys pob mynediad/allanfa (ac eithrio tu mewn i'r toiledau). Dylid cadw recordiadau teledu cylch cyfyng am 30 diwrnod a'u rhoddi i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fyddai'n bosibl cydymffurfio â'r cais ar y pryd, yna dylid mynd â'r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (yn yr achos hwn, Gorsaf Heddlu Bangor) cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr.**
**d) Gosod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan yr Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd –**
**i) Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq (5 munud) na'r lefel Leq (5 munud) yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5Hz, 63Hz a 125Hz oddi allan i unrhyw eiddo sensitif i sŵn o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod hon mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:1997.**
**ii) Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant.**
**iii) Os wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod 1, bydd perchennog yr eiddo'n gwneud y canlynol –**
- **Gwneud unrhyw waith ynysu/arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ag amod 1, a/neu**
- **Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn a sefydlwyd fel uchafswm caniataeedig.**

**iv) Unwaith bydd lefel ar unrhyw ddyfais rheoli sŵn sydd wedi ei osod yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
**v) Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng 22.00 a 08.00. Bydd y poteli'n cael eu cadw o fewn libart yr eiddo mewn sgip neu bin gyda chaead.**
**vi) Bydd arwyddion clir a dealladwy'n cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sy'n gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, yn arbennig yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau cerbydau na chanu cyrn cerbydau.**
**vii) Mae'n ddyletswydd i ddaliwr trwydded personol yr eiddo, y goruchwyliwr eiddo dynodedig a'r goruchwyliwr drysau i fonitro ymddygiad yr unigolion sy'n gadael yr eiddo a'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb cyhoeddus lle sydd angen.**
**dd) Y dylid sicrhau bod rhif ffôn ar gael i'r trigolion allu ffonio tra bo'r eiddo ar agor, er mwyn gwneud cwyn os oes sŵn o'r eiddo ac yn creu niwsans. Cofnodion o'r galwadau hyn i'w cadw fel eu bod ar gael i Swyddogion Iechyd Amgylchedd os oes angen.**
**e) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff P o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded sef –**
**i) Yr holl staff rheoli i dderbyn hyfforddiant SIA.**
**ii) Staff i gael eu hyfforddi i adnabod achosion posibl o drwbl gyda gweithdrefn adrodd i fod yn ei lle.**
**iii) Gwiriadau lleoliad i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl cau'r eiddo. DPS i gynnal cofrestr, wedi ei chymeradwyo gan yr heddlu a'r awdurdod lleol, o'r holl staff a gyflogir ar y drws, fyddai'n cynnwys adegau dechrau a gorffen y staff ar ddyletswydd, eu rhif bathodyn SIA ac enw'r cwmni sy'n eu cyflogi os nad DPS.**
**iv) Cofrestr i fod yn yr eiddo yn barhaol, ac am flwyddyn ar ôl ei gwblhau, i'w archwilio gan yr awdurdod lleol a'r heddlu.**
**v) Asesiadau risg i'w cynnal i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.**
**vi) Cydymffurfio â holl ofynion yr awdurdod tân, a'r holl offer tân i'w gynnal yn unol â'r gofynion statudol.**
**vii) Diogelwch trydanol, integriti'r adeilad, y gwresogi a'r system awyru i'w gynnal gan dîm cynnal a chadw'r brifysgol.**
**viii) Holl brofion PAT blynyddol i'w gwblhau.**
**ix) Dim gwydr neu ddiod i'w gario oddi ar y safle. Cwsmeriaid i adael unrhyw lestri gwydr a ddygwyd i'r eiddo, tu allan ar gyfer eu gwaredu o fewn yr eiddo gan y staff ar y drws.**
**x) Torfeydd i'w gwasgaru ar ddiwedd y noson gan oruchwylwyr drysau a fydd yn cael eu cadw am hanner awr ar ôl i'r fangre gau i'r cyhoedd, i fonitro'r dorf.**
**xi) Dim plant i'w caniatau i mewn i'r adeilad yn ystod yr oriau trwyddedig arferol.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.00pm